# SL(6)572 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Caffaeliadau sy'n Ymwneud ag Anheddau Lluosog) (Cymru) 2025

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ("**Deddf 2017**") i gyfyngu ar y rhyddhad anheddau lluosog ("**MDR**") sydd ar gael rhag treth trafodiadau tir ("**TTT**") o dan amgylchiadau penodol pan fo'r eithriad is-anheddau ("**SDE**") yn gymwys.

Yn gyffredinol, mae cyfraddau preswyl uwch TTT yn gymwys i brynu anheddau preswyl ychwanegol. Fodd bynnag, ar gyfer prynu prif annedd ochr yn ochr ag is-annedd (neu anheddau) o fewn yr un adeilad neu dir, mae SDE yn darparu esemptiad rhag cyfraddau preswyl uwch TTT, yn ddarostyngedig i amodau penodol.

Mae MDR yn rhyddhad rhannol rhag TTT sydd ar gael pan fo prynwr yn caffael nifer o anheddau yn yr un trafodiad neu mewn trafodiadau cysylltiedig. Effaith y Rheoliadau hyn yn fras fydd atal trethdalwyr a fydd yn dalwyr prif gyfraddau preswyl TTT, oherwydd gweithrediad SDE, rhag gallu hawlio MDR hefyd.

Daw'r Rheoliadau i rym ar 7 Chwefror 2025 ac maent yn cynnwys darpariaeth drosiannol ar gyfer trafodiadau tir y rhoddir effaith iddynt yn unol â chontract yr ymrwymir iddo neu a gyflawnir yn sylweddol cyn y dyddiad hwnnw, yn ddarostyngedig i amodau penodol.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu**

**gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath.**

Mae adran 25 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn darparu bod rhaid i Awdurdod Cyllid Cymru dalu symiau a gesglir wrth arfer ei swyddogaethau, gan gynnwys TTT a gesglir, i Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn addasu cymhwysiad rhyddhad (MDR) rhag TTT mewn trafodiadau sy'n ymwneud â phrynu mwy nag un annedd, o dan amgylchiadau penodol pan fo SDE yn gymwys.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 27 Ionawr 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.